EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

COFNODION AIL GYFARFOD A DEUGAIN
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

DYDDIAD: 20 Tachwedd 2025

LLEOLIAD: Swyddfeydd CGA

Yn bresennol:
Aelodau:

Eithne Hughes (Cadeirydd)	Kathryn Robson
David Edwards	Sue Walker
Nicola Stubbins	Geraint Williams
Gwawr Taylor	Theresa Evans-Rickards

Ymddiheuriadau:
David Williams, Jane Jenkins, Karl Jones, Kelly Edwards

Swyddogion:

Lisa Winstone	Prif Weithredwr
Kerry Price	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Interim
Bethan Stacey	Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi
David Brown	Cyfarwyddwr Rheoleiddio
Louise Deeley	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (*cofnodion*)
Jess Tippins	Rheolwr Cyfathrebu CGA *(arsylwi)*
Ben Lester	Rheolwr Polisi a Chynllunio *(arsylwi)*
Beverley Curtis	Uwch Swyddog Polisi a Chynllunio *(arsylwi)*
Shamima Aktar	Swyddog Polisi a Chynllunio r *(arsylwi)*
Angela Guarno	Cynorthwyydd Gweithredol i'r Prif Weithredwr *(arsylwi)*
Rachel Rees	Rheolwr Priodoldeb i Ymarfer *(arsylwi)*
Nerys Hurford	Cyfieithu ar y pryd

1. Croeso a materion rhagarweiniol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion ac arsylwyr i ail gyfarfod a deugain Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Nododd y byddai sesiwn breifat yn dilyn sesiwn gyhoeddus y cyfarfod a byddai arsylwyr yn cael cais i adael y sesiwn honno. Ar ôl cinio, byddai aelodau'n cymryd rhan yn y sesiwn gynllunio flynyddol. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan David Williams, Jane Jenkins, Karl Jones a Kelly Edwards.

1.2 Croesawyd Lisa Winstone yn ffurfiol i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor fel Prif Weithredwr. Hefyd, croesawyd Kerry Price, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Interim, i'w gyfarfod cyntaf a diolchwyd iddo am ei waith hyd yn hyn.

1.3 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau mai dyma oedd ei chyfarfod olaf o'r Cyngor ac estynnodd longyfarchiadau i Geraint Williams ar gael ei benodi'n Gadeirydd y Cyngor, gan ddechrau ar 1 Rhagfyr 2025.

1.4 Hysbyswyd aelodau y byddai Susan Walker yn ymddeol o swydd Cyfarwyddwr Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar 30 Ebrill 2026 ac, felly, o Gyngor CGA. Diolchodd y Cadeirydd i Susan am ei chyfraniadau a'i mewnwelediadau amhrisiadwy i'r Cyngor.

1.5 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyfieithydd ar y pryd am fod yn bresennol a rhoddodd wybod i aelodau y byddai Bethan Stacey *(Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi)* yn cyflwyno'i phapurau trwy gyfrwng y Gymraeg.

1.6 Atgoffwyd aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Cyngor yn digwydd yn swyddfeydd CGA ar 19 Mawrth 2026. Byddai hyfforddiant blynyddol gorfodol yn digwydd yn swyddfeydd CGA ar 23 Ebrill 2026. Gwahoddwyd aelodau i gyfrannu at y slotiau 10 munud sydd ar gael yn y sesiwn i siarad am eu rolau. Gwirfoddolodd David Edwards, Nicola Stubbins a Susan Walker ar gyfer y sesiynau.

2. Datganiadau Buddiannau

2.1 Datganodd Geraint Williams fuddiant am ei fod yn gofrestrai.

2.2 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau pellach.

3. Gohebiaeth ac adroddiad y Cadeirydd

3.1 Dywedodd y Cadeirydd fod adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant yn sgil euogfarn y cyn-bennaeth, Neil Foden, wedi'i ysgrifennu'n dda a nodwyd bod yr adroddiad wedi crybwyll bod Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA yn rhywbeth y dylai cofrestreion fod yn ei ddilyn. Nododd y Cadeirydd fod trafodaethau y tu hwnt i CGA yn angenrheidiol i bennu pwy oedd yn gyfrifol am weithredu argymhellion o wrandawiadau Priodoldeb i Ymarfer.

3.2 Byddai Llywodraeth Cymru'n hysbysebu pedair rôl wag ar y Cyngor ym mis Rhagfyr, gyda'r broses benodi i'w chynnal ym mis Ionawr, a dywedont y byddent yn cadeirio'r panel penodiadau.

3.3 Nododd un aelod fod cysylltiad wedi'i wneud ag ADEW ynghylch penodiadau a bod dau ymgeisydd wedi cynnig eu hunain.

3.4 Nododd un aelod na fyddai cynrychiolaeth o ogledd Cymru ar ôl i'w thymor ddod i ben yn 2027. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'n rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am hyn cyn bod y broses recriwtio'n cychwyn.

3.5 Nododd un aelod y dylai hyrwyddo amrywiaeth fod yn flaenllaw yn y broses recriwtio.

3.6 Awgrymodd un aelod adolygu'r broses recriwtio Ynadon, a fu'n llwyddiannus o ran nodi cynrychiolaeth ehangach o fewn cymunedau.

3.7 Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod yn ddiweddar â gwleidyddion o wahanol bartïon i drafod eitemau fel safonau proffesiynol a diogelu.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 10 Gorffennaf 2025

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft gyfarfodydd y Cyngor ar 10 Gorffennaf 2025. Gofynnodd i'r aelodau gymeradwyo'r cofnodion yn gofnod cywir o drafodaethau.

4.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi a chadarnhaodd y Cyngor y cofnodion.

5. Cael gwybod am unrhyw faterion y mae'r aelodau'n dymuno eu codi yn gysylltiedig â'r eitemau agenda 'er gwybodaeth'

5.1 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i godi unrhyw faterion yn gysylltiedig â'r eitemau agenda 'er gwybodaeth'.

5.2 Ni roddwyd gwybod am unrhyw faterion.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 23 Medi 2025

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr gofnodion y Pwyllgor Gweithredol a rhoddodd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu i sylw'r aelodau na fyddent yn cael eu trafod ar agenda'r Cyngor.

6.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 23 Medi 2025

7.1 Cyflwynodd Nicola Stubbins (*Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio*) y cofnodion drafft a rhoddodd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu i sylw'r aelodau na fyddent yn cael eu trafod ar yr agenda, maes o law.

7.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

8. Cofnodion drafft cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar 3 Gorffennaf 2025 a 25 Medi 2025

8.1 Cyflwynodd Gwawr Taylor *(Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu)* gofnodion drafft 3 Gorffennaf 2025 a 25 Medi 2025 a rhoddodd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu i sylw'r aelodau na fyddent yn cael eu trafod ar yr agenda, maes o law.

8.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

9. Adroddiad gan y Prif Weithredwr CGA 38/25

9.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Cyngor ar amrywiaeth o faterion nad ydynt yn cael sylw mewn man arall ar yr agenda, gan wahodd sylwadau ac ymholiadau'r aelodau.

9.2 Penodwyd Goodson Thomas i recriwtio i swydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 1 Rhagfyr a byddai cyfweliadau'n cael eu cynnal ar 17 Rhagfyr 2025. Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Interim yn ei swydd ar hyn o bryd tan ganol fis Ionawr 2026.

9.3 Roedd y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi, a'r Rheolwr Polisi a Chynllunio wedi cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod blaenoriaethau ar gyfer cynllun y Gweithlu Addysg Strategol a rôl bosibl CGA o ran cefnogi'r cynllun, fyddai'n cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth.

9.4 Yn sgil cyngor a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, penderfynwyd peidio â chyhoeddi maniffesto CGA. Byddai'r gwaith yn cael ei ddefnyddio yn hytrach i lywio cynlluniau at y dyfodol a diolchwyd i'r Tîm Polisi am eu gwaith caled. Roedd yr holl eitemau yn y 'maniffesto' wedi cael eu cyfleu i wleidyddion yn anffurfiol yn ystod cyfarfodydd diweddar.

9.5 Roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2025 i drafod opsiynau o ran corff negodi ar gyfer cynorthwywyr addysgu/staff cymorth ysgolion.

9.6 Hysbyswyd aelodau fod cyfarfodydd Prif Weithredwyr 4 Cyngor y DU ac Iwerddon yn cael eu cynnal bob chwe mis. Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 8 a 9 Hydref 2025 yn yr Alban, a bu'r Prif Weithredwr yn bresennol. Yn ogystal, mae'r Prif Weithredwyr a'r Cadeiryddion yn cyfarfod yn flynyddol a'r bwriad oedd cyfarfod yng Nghaerdydd ym mis Ionawr 2026.

9.7 Cynhaliwyd digwyddiad briffio ar ystadegau blynyddol y gweithlu ar 14 Hydref 2025. Cynhaliwyd digwyddiad briffio polisi pellach ar 'Recriwtio a dargadw: tueddiadau, heriau a llwybrau polisi' ar 13 Tachwedd 2025. Byddai recordiadau ar gael i'w gwylio ym mis Rhagfyr.

9.8 Roedd bwriad i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio gyfarfod â'r Teaching Regulation Agency (Lloegr) ar 25 Tachwedd 2025 mewn digwyddiad i Reoleiddwyr Addysg, wedi'i gynnal gan Kingsley Napley. Fodd bynnag, oherwydd bod y contract gyda Kingsley Napley yn destun aildendro yn ystod y chwe mis nesaf, penderfynwyd gohirio unrhyw gyfarfod hyd nes bod contract newydd ar waith.

9.9 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

10. Adolygiad chwarterol (1 Gorffennaf – 30 Medi 2025) CGA 39/25

10.1 Cyflwynodd Bethan Stacey, Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi, yr adolygiad o'r ail chwarter ar gyfer blwyddyn weithredol 2025-26.

10.2 Fe wnaeth un aelod gwestiynu'r ffioedd cofrestru a sut roedd gwaith yn cael ei asesu o ran effaith, o ystyried y cynnydd mewn niferoedd cofrestreion.

10.3 Cadarnhaodd Bethan Stacey fod gwerthusiadau'n digwydd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn i ddeall pa mor effeithiol yr oedd prosesau gweithredol yn gysylltiedig â Phriodoldeb i Ymarfer, materion cofrestru a gwaith a wnaed ar ran Llywodraeth Cymru. Gwnaed gwelliannau ar sail yr adborth a gafwyd.

10.4 Gwahoddodd y Prif Weithredwr yr aelodau i roi adborth ar sut roedd gwybodaeth yn cael ei chyflwyno ac unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella.

10.5 Cadarnhaodd Bethan Stacey fod yr uwch dîm rheoli yn deall pwysigrwydd y ffordd roedd gwybodaeth yn cael ei chyflwyno ac roeddent yn gweithio ar wneud newidiadau a gwelliannau i'r ffordd roedd adroddiadau'n cael eu cyflwyno.

10.6 O ran ffioedd, cadarnhaodd David Browne *(Cyfarwyddwr Rheoleiddio)*, fod y gofrestr yn cael ei monitro'n wythnosol a'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol bob amser. Roedd y ffioedd yn cael eu rhagweld ar sail y niferoedd a oedd yn talu £45 a £15, a'r gofrestr yn cael ei gwerthuso yn erbyn y gyllideb. Yn 2025, mae nifer y rhai sy'n talu ffi o £45 wedi gostwng, ac mae nifer y rhai sy'n talu ffi o £15 yn uwch na'r rhagolwg. Byddai'r gyllideb yn debygol o fod gerllaw'r rhagolwg, ond bu cyfran uwch o achosion Priodoldeb i Ymarfer yng nghategori'r rhai sy'n talu £15, nad oedd yn talu cost y broses Priodoldeb i Ymarfer.

10.7 Hefyd, nododd David Browne fod rhai unigolion wedi cofrestru mewn mwy nag un categori a gwnaed gwaith sylweddol i sicrhau bod cofrestreion yn talu'r ffi gywir. Yn 2024, cafodd 3,000 enghraifft o ddyblygu eu dileu o'r gofrestr ac, ar hyn o bryd, roedd 10,500 yn destun sylw.

10.8 Nododd aelod y byddai tuedd aml-flwyddyn yn werthfawr er mwyn asesu cynnydd.

10.9 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

11. Adolygiad ariannol chwe misol CGA 40/25

11.1 Cyflwynodd Kerry Price *(Cyfarwyddwr Cyllid, AD a Gwasanaethau Corfforaethol Interim)* y papur hwn, a wnaeth adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol. Byddai adolygiad pellach yn cael ei gynnal yn yr wythfed mis, a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ym mis Ionawr 2026.

11.2 Roedd y gyllideb flynyddol yn cynnwys diffyg wedi'i chynllunio, sef £1,117,840. Gan gyfrif am weithgarwch disgwyliedig ail hanner y flwyddyn, roedd yr alldro a ragwelwyd yn amcangyfrif diffyg o £1,089,069.

11.3 Disgwyliwyd ar hyn o bryd y byddai'r incwm llawn wedi'i gyllidebu o ran ffioedd cofrestru yn cael ei gyflawni, sef £2,677,500, ac y byddai ad-daliadau'n cyd-fynd â'r gyllideb, sef £50,000.

11.4 Roedd llog o'r banc ac incwm arall yn debygol o gyd-fynd â'r gyllideb.

11.5 Byddai ychydig bach o orwariant ar gostau staff oherwydd y dyfarniad cyflog staff uwch na'r disgwyl, sef 3.7%, o gymharu â'r dyfarniad y cyllidebwyd ar ei gyfer, sef 3%. Disgwyliwyd y byddai cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau staff yn cael ei gyhoeddi yn yr ail gyllideb atodol ym mis Chwefror.

11.6 Roedd newidyn nodedig oherwydd y cynnydd mewn costau cyfreithiol yn gysylltiedig â gweithgarwch rheoleiddiol CGA.

11.7 Byddai'r sefyllfa bresennol o ran datblygu'r gronfa ddata yn arwain at danwario'r gyllideb cynnal a chadw a datblygu, oherwydd yr oedi wrth weithredu'r system newydd.

11.8 Holodd un aelod p'un a oedd costau recriwtio gan ddefnyddio asiantaeth chwilio weithredol yn ymwneud â swyddi'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y costau ar gyfer y ddwy swydd, a nododd, petai recriwtio'n cael ei gyflawni trwy asiantaeth, byddai ffi chwiliwr sy'n 15-20% o'r cyflog, yn nodweddiadol. Byddai chwiliadau pellach heb gost ychwanegol yn cael eu darparu hyd nes bod ymgeisydd wedi'i benodi. Hefyd, nododd y Cadeirydd fod yr asiantaeth chwilio yn darparu gwasanaeth hynod broffesiynol, gan gynnwys adroddiadau cynhwysfawr i gynorthwyo â phroses llunio'r rhestr fer.

11.9 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

12. Adroddiad Cynnydd SAC, Cofrestru a Sefydlu CGA 41/25

12.1 Darparodd David Browne ddiweddariad i aelodau ar waith Cofrestru, Statws Athro Cymwysedig (SAC) a Sefydlu CGA.

12.2 Roedd nifer y cofrestreion unigol yn uwch nag yn yr un cyfnod yn 2024 a 2023, ond roedd y cymysgedd yn newid.

12.3 Yn wreiddiol, nododd y broses ddiffyg cydymffurfio fod 432 o ymarferwyr yr oedd cyflogwyr wedi nodi eu bod yn gweithio, ond nad oeddent yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Roedd y ffigur hwn wedi gostwng i 22.

12.4 O ran cyflwyno cymwysterau gofynnol i athrawon AB, cafwyd cyngor cyfreithiol, sy'n destun braint gyfreithiol, a gadarnhaodd nad oedd cyfrifoldeb cyfreithiol ar CGA i wirio cymwysterau gofynnol. Yn unol â'r cyngor, parhaodd CGA i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Cholegau Cymru i gadarnhau, ar gyfer pob rhanddeiliad, sut byddai'r gofyniad am gymwysterau gofynnol i athrawon AB yn gweithredu.

12.5 Datganodd dau aelod o Golegau Cymru fuddiant a nodont nad oedd gohebiaeth swyddogol wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru eto.

12.6 Nododd un aelod nad oedd mecanwaith na meini prawf gwirioneddol i bennu p'un a oedd cymwysterau yn addas. Roedd cwrs 10 wythnos, 'Get in to teaching', yn ddigon i gymhwyso'n gofrestrai.

12.7 Cadarnhaodd David Browne nad oedd dull o atal rhywun rhag cofrestru fel athro AB, gyda neu heb gymhwyster.

12.8 Nododd un aelod fod amrywiol grwpiau rhanddeiliaid wedi codi baneri coch yn ystod yr ymgynghoriad. Yn arwyddocaol oedd swm y buddsoddiad a'r adnoddau yr oedd eu hangen i roi aelodau staff newydd trwy'r cymhwyster addysgu.

12.9 Nodwyd hefyd nad oedd y ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n glir nad oedd rhaid i ddarlithwyr gwadd ennill y cymhwyster.

12.10 Nid oedd unrhyw ymholiadau pellach a nododd aelodau'r diweddariad.

13. Uwchraddio Cronfa Ddata Cofrestru CGA **CGA 42/25**

13.1 Cyflwynodd David Browne *(Cyfarwyddwr Rheoleiddio)* y papur hwn, a amlinellodd gynnydd hyd yn hyn i uwchraddio Cronfa Ddata Cofrestru CGA.

13.2 Roedd ClearCourse wedi neilltuo adnoddau ychwanegol i dîm rheoli'r prosiect, ond roeddent wedi gohirio'r dyddiad cyflwyno o fis Rhagfyr 2025 i fis Gorffennaf 2026, pan ddaeth i'r amlwg nad oedd dyddiad cyflwyno Rhagfyr 2025 yn bosibl.

13.3 Roedd cynlluniau prosiect manwl wedi cael eu cyflwyno, a oedd yn destun adolygiad i gadarnhau p'un a oeddent yn bodloni anghenion gweithredol CGA.

13.4 Roedd cyfarfodydd bob pythefnos gyda ClearCourse ac uwch reolwyr yn mynd rhagddynt i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gwblhau erbyn dyddiad cyflwyno diwygiedig Gorffennaf 2026.

13.5 Holodd un aelod p'un a oedd risg hyfywedd gyda ClearCourse.

13.6 Cadarnhaodd y Prif Weithredwr eu bod yn monitro perfformiad ariannol ClearCourse ac y byddent yn derbyn hysbysiadau am unrhyw bryderon. Roedd Cyfarwyddwr ClearCourse yn dod i gyfarfodydd ac roeddent yn disgwyl adroddiad cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y prosiect yn y cyfarfod nesaf.

13.7 Holodd un aelod p'un a allai CGA ddefnyddio unrhyw ddylanwad o ran y ffi benodedig pe na bai'r gronfa ddata'n cael ei chyflwyno, a ph'un a oedd hyder mewn adolygiad ôl-weithredu.

13.8 Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod un taliad o £76 mil wedi'i wneud hyd yn hyn ac na fyddai unrhyw gyllid pellach yn cael ei ryddhau hyd nes ei bod hi'n glir fod cerrig milltir wedi cael eu cyflawni.

13.9 Nodwyd y bu newidiadau i staff tîm y prosiect yn dilyn cyfarfodydd uwchgyfeirio a bod CGA bellach wedi gweithio gyda'r staff hynny ar y prosiect ers nifer o flynyddoedd.

13.10 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

14. Adroddiad Cynnydd Priodoldeb i Ymarfer **CGA 43/25**

14.1 Cyflwynodd David Browne yr adroddiad cynnydd hwn, a roddodd ddiweddariad i aelodau ar waith achos Priodoldeb i Ymarfer CGA a materion gweithdrefnol cysylltiedig.

14.2 Ers i CGA dderbyn pwerau gorchmynion atal dros dro interim (ISO) gyntaf ym mis Ebrill 2021, roedd CGA wedi gosod 40 ISO, bob un ohonynt am y cyfnod hwyaf, sef 18 mis.

14.3 Diolchodd David Browne i aelodau'r Cyngor am eu cymorth â diweddaru'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol, a aeth yn weithredol ar 1 Medi 2025.

14.4 Nodwyd pwysigrwydd sesiynau hyfforddiant parhaus i ymarferwyr a rhanddeiliaid, ac roedd 36 o sesiynau wedi'u cwblhau ers 1 Ebrill 2025.

14.5 Roedd swyddogion wedi trefnu cyfarfod â'r pedwar heddlu yng Nghymru yn unigol ym mis Tachwedd 2025.

14.6 Dywedodd un aelod fod hyfforddiant yn bwysig iawn i atal achosion priodoldeb i ymarfer yn y dyfodol.

14.7 Holodd un aelod sut effaith allai fod ar rywun ag ISO os oeddent wedyn yn ymgymryd â swydd yn Lloegr.

14.8 Cadarnhaodd David Brown y byddai'r Teaching Regulation Agency (TRA) yn cael gwybod bod ISO ar waith yng Nghymru ac y byddent yn disgwyl bod y gorchymyn yn cael ei gweithredu yn Lloegr hefyd. Byddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu gyda gwledydd eraill yn ogystal. Yn yr un modd, roedd TRA yn rhannu gwybodaeth am waharddiadau a gorchmynion ISO gyda CGA.

14.9 Holodd un aelod p'un a ymgymerwyd â hyfforddiant gyda llywodraethwyr.

14.10 Cadarnhaodd David Browne fod hyfforddiant yn rheolaidd gyda chyrff llywodraethol mewn rhai awdurdodau.

14.11 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad cynnydd.

15. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Safonau Proffesiynol Diwygiedig ar gyfer Cynorthwyo Addysgu, Addysgu ac Arweinyddiaeth CGA 44/25

15.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn, gan wahodd aelodau i lywio datblygiad ymgynghoriad drafft Llywodraeth Cymru ar y Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer cynorthwyo addysgu, addysgu ac arweinyddiaeth.

15.2 Nododd un aelod fod diogelu yn fater i bawb a bod rhaid ei gynnwys.

15.3 Nododd y Cadeirydd fod safonau'n orfodol i rai cofrestreion ond nid i eraill, ond roedd yn ofynnol i gofrestreion gofrestru.

15.4 Gofynnodd y Cadeirydd fod sylw manwl yn cael ei dalu i'r ddogfen ymgynghori wedi iddi gael ei dosbarthu a bod adborth yn cael ei roi i helpu gydag ymateb CGA i Lywodraeth Cymru.

15.5 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau pellach.

16. Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon CGA 45/25

16.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn, a roddodd ddiweddariad i aelodau ar gynnydd o ran rôl statudol y Cyngor i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru.

16.2 Nodwyd fod tair partneriaeth, sef CaBan, Prifysgol De Cymru a'r Brifysgol Agored, wedi cael arolygiadau gan Estyn yn ddiweddar ac y cyhoeddwyd adroddiadau arnynt. Rhoddwyd y tri yn y categori 'gweithgarwch dilynol uwch' gan Estyn ac roedd CGA yn ystyried y dystiolaeth yn yr adroddiadau hynny i amlygu unrhyw ddiffyg cydymffurfio â'r meini prawf achredu. Byddai camau priodol yn cael eu cymryd pe bai diffyg cydymffurfio'n cael ei nodi.

16.3 Hysbyswyd aelodau am newid mewn personél yn Estyn, a oedd wedi rhoi cyfle i CGA gadarnhau aelodaeth bwrdd Estyn a thrafod materion yn ymwneud â phrosesau presennol.

16.4 Nid oedd gan aelodau unrhyw gwestiynau ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

17. Sefydlu Statudol a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol CGA 46/25

17.1 Rhoddodd Bethan Stacey adroddiad cynnydd i aelodau ar sut roedd CGA yn gweinyddu'r rhaglen Sefydlu, ac yn datblygu a gweithredu Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ar ran Llywodraeth Cymru.

17.2 O ran y rhai sy'n derbyn cymorth sefydlu, nodwyd fod 75% o Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) yn sefydlu tra'r oeddent yn cael eu cyflogi mewn ysgolion ar gontractau dros dro.

17.3 Roedd aelodau'n fodlon derbyn y diweddariad.

18. Hyrwyddo Gyrfaoedd mewn Addysg CGA 47/25

18.1 Rhoddodd Bethan Stacey adroddiad cynnydd i aelodau ar rôl CGA wrth hyrwyddo gyrfaoedd mewn addysg.

18.2 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

19 - 21. Eitem(au) gwybodaeth

Cafodd aelodau bapurau "er gwybodaeth" ar:

- **Ysgrifenyddiaeth i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC) (CGA 48/25)**
- **Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (CGA 49/25)**
- **Ymatebion CGA i ymgynghoriadau allanol (CGA 50/25)**

22. Unrhyw fater arall

22.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall a daeth sesiwn gyhoeddus y cyfarfod i ben.

Yna, symudodd y Cyngor i sesiwn breifat.